

Llais y Llan Awst 2015

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Medi 2015
Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol
www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Noson Pizza Y Rheilffordd pob Nos Fawrth 01267253643

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Bowlio pob Nos Lun a Nos Iau 7.30 – 9.30 o 3 Medi

Awst 12 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

August 18 Dydd Mercher 11.30 Trip Dirgelwch Clwbgwili 60+

Awst 20 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Awst 24 Dydd Llun 2.00 60+ Clwb Neuadd Bronwydd

Awst 27 Dydd Iau 1.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Awst 27 Nos Iau 8.00 Bowlio CBC Neuadd Goffa

Awst 29 Dydd Sadwrn 11.00 Sioe CFFI Cynwyl Elfed

Awst 30 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelynen Bronwydd

Medi 1 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Medi 5 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Y Mynydd Du

Medi 9 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Medi 12 –13 Penwythnos Treftadaeth Dynevor, Mynediad am ddim

Medi 13 Dydd Sul Dewinwyr Taith Trelech Newport Gwent

Medi 17 Hydref 22 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Medi 26 Bore Sadwrn 10 – 12 Bore Coffi Macmillan Neuadd Goffi

Medi 27 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Medi 27 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelynen Bronwydd

Medi 28 Dydd Llun 2.00 CBC Clwbgwili 60+ Bronwydd Hall

Hydref 3 Dydd Sadwrn 3.00 Cerdded Cei Cydweli

Hydref 6 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Hydref 8 Dydd Iau 1.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Hydref 14 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643
Hydref 17 Dydd Sadwrn 10.00 Bore Coffi Clwb Gwau Tywi Neuadd Bronwydd
Hydref 22 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd
Hydref 24 Nos Sadwrn 8.00 Teyrnged i Abba Neuadd Goffa
Hydref 25 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Hydref 25 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelynen Bronwydd
Tachwedd 3 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
Tachwedd 12 Nos Fercher Pryd Bwyd Elusennol, Tafarn y Rheilffordd
Tachwedd 16 Dydd Llun 2.00 60+ Clwb Neuadd Bronwydd
Tachwedd 19 Dydd Iau 1.00 Clinig Traed Neuadd Goffa
Rhagfyr 4 Nos Wener Bingo Nadoligaidd Neuadd Goffa
Rhagfyr 16 Dydd Llun 12.30 Pryd o fwyd Nadolig Clwbgwili 60+ Tafarn Nantcelynen
Rhagfyr 24 Dydd Iau Gorymdaith Siôn Corn Noswyl Nadolig
Ionawr 14 Dydd Iau 1.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

*Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

Hysbysiad wrth Siop Penbontbren Stores

Mis diwethaf fe wnaeth Roz & Steve benderfynu y byddaint yn cau'r siop diwedd mis gorffenaaf. Rwyf yn hapus I gadarnhau fy mod I Darlene Davies a'n mhartner James Stickland yn cymerid y siop drosodd.

Rwyf yn gwybod fod y mwyafrif ohonoch yn ymwybodol fy mod yn gweithio yn y salon drws nesaf yn barod, felly fe fydd oriau agor y siop yn newid:-

Llun - Iau	- 8yb - 3yh
Gwener	- 8yb - 8yh (noson sglodion)
Sadwrn	- 8yb - 3yh
Sul	- 9yb - 1yh

Edrychwn ymlaen am eich cefnogaeth parhaol.

Diolch. Darlene a James

Rheilffordd Nosweithiau Arbennig

Nos Fawrth arbennig yn noson Piz̄za - 2 piz̄zas yn ogystal â photel o win tŷ am £, 20 y pâr. Siopau tecawê ar gael hefyd.

Bydd Mike, Jayne a Nick yn cynnal Noson Stêc i 2 bob dydd Mercher - 2 x10oz Celtic Pride stêc ffolen gyda sglodion cartref a garnais salad a photel o win tŷ; am £,25 y cwpwl. Ffoniwch y Rheilffordd ar 01267 253643 i archebu.

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Fe wnaeth saith aelod o'r clwb gwrdd ar yr 11eg o Orffennaf ym maes parcio Llandeilo a cherdded lawr i'r afon, gan oedi ar hyd y daith ger hen furiau'r abaty a'r ffynnon. Fe wnaeth y mwyafrif ohonom flasu'r dŵr clir, melys. Roedd y ffynnon wedi'i addurno gyda ffigurau bach a blodau ffres. Yn ôl y sôn, roedd pobl yn yfed dŵr o'r ffynnon pan oeddent yn sâl neu'n ddi-hwyl.

Fe wnaethom gerdded ar hyd llwybr yr afon, trwy goedwig y castell, gan aros eto i ymweld ag eglwys Llandyfeisant. Yma mae rhai o Arglwyddi Dinefwr wedi'u claddu ynghyd â'u teuluoedd a'u gweision. Ardal o brydferthwch naturiol gyda blodau gwyllt a nant fechan. Parhaom i gerdded tuag at Eglwys Dinefwr i gael cinio, yna yn ôl at Tŷ Newton i'r heol fawr ac yna i Llandeilo am hufen iâ blasus o Heavenly. Mae'r corned wastad yn llawn dop, ac yn sicr yn werth £2.50!

NB. Os ydych chi am gerdded drwy gerddi Tŷ Newton byddwch yn gorfod talu £6.50 i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, hyd yn oed os nad ydych yn ymweld â'r tŷ! Nid yw hyn i'w weld yn deg o gwbl, gan fod y daith yn cael ei grybwyll mewn sawl llyfr cerdded, a hyd yn oed ar yr hysbysfwrdd ym maes parcio Llandeilo!

Rydym yn dal wrthi i lunio ein rhaglen am Fedi a Hydref, felly byddwn yn gosod y manylion yn y siop cyn gynted a fod pethau wedi eu cwblhau.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Carolyn Smethurst 01267 253308

Clwb 100 Llanpumsaint

Cafodd rhifau mis Mehefin a Gorffennaf eu tynnu yng nghyfarfod diweddaraf Cymdeithas Les ac Adloniant Llanpumsaint. Fe wnaeth trysorydd y clwb baratoi'r disgiau sydd wedi'i rhifo, ac fe wnaeth yr aelodau oedd yn bresennol - yn eu tro - dynnu'r rhifau buddugol canlynol:

Mehefin		Gorffennaf			
£20	Rhif. 28	Matthew Jameson	£20	Rhif. 42	Manon Charles
£10	Rhif.44	Ray Davies	£10	Rhif. 62	John Richards
£5	Rhif. 98	Nivina Davies	£5	Rhif. 67	Lynsey Jones
£5	Rhif. 58	Elvira Howells	£5	Rhif. 68	Owain & Llŷr Jones

Derick Lock – Trysorydd

Bowlio Mat Byr Llanpumsaint & Nebo

Bydd ein Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar nos Iau y 27ain o Awst am 8 y.h. yn brydlon.

Bydd sesiynau ymarfer ar gyfer tymor 2015/16 yn dechrau ar ddydd Iau y 3ydd o Fedi, ac yna bob nos Lun a phob nos Iau drwy gydol y tymor o 7.30 - 9.30 y.h.

Rydym o hyd yn chwilio am aelodau newydd, felly os ydych yn hen law arni neu heb chware o'r blaen - mae croeso mawr i chi.

Mae gennym aelodau o 11-85 oed, gyda hyfforddwy'r cymwysedig sy'n barod i roi cyngor i chi.

Am wybodaeth pellach cysylltwch gyda'n Ysgrifennydd Derick Lock ar 253524.

Cymdeithas Les ac Adloniant Llanpumsaint

Nodwch fod y digwyddiadau canlynol wedi'u trefnu gan yr ymddiriedolwyr:

Bore Coffi Macmillan - i'w gynnal yn y Neuadd Goffa ar fore Sadwrn y 26ain o Fedi, rhwng 10 - 12 y.b.

Derbyniwn roddion o gacennau, ayyb i'w gwerthu. Mae'n achos llwyr haeddiannol ac yn gyfle da i chi gymdeithasu - dewch i gal paned!

Pryd bwyd elusennol - yn Nhafarn y Rheilffordd ar ddydd Iau 12fed o Dachwedd. Rhagor o fanylion i ddilyn. Bydd yr arian yn mynd tuag at gronfa i brynu dwy fainc newydd i'r cae chware wrth lan yr afon.

Gorymdaith Siôn Corn Noswyl Nadolig - rydym yn chwilio am help ychwanegol i drefnu'r digwyddiad eleni. Os ydych yn barod i wirfoddoli gallwch gysylltu â Pamela Jones ein Cadeirydd ar 253257, neu ein Ysgrifennydd Derick Lock ar 253524. Yr elusen etholedig eleni yw Ambiwylans Awyr Cymru.

Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri

PWYSIG IAWN - o ganlyniad i gemau rygbi a phêl-droed rhyngwladol sy'n cael ei darlledu, mae ei Noson Teyrnged i ABBA gyda Bjorn Again wedi'i symud i'r 24ain o Hydref.

Mae tocynnau yn £12 yr un ac ar gael wrth yr ymddiriedolwyr cyn hir.

Fe fydd bar trwyddedig ar gael gyda siop sglodion a physgod Steve Penbontbren yno ar y noson. Gallwch wrth gwrs dod â lluniaeth ysgafn eich hun.

Peidiwch anghofio ein Noson Bingo Nadolig - rydym yn siwr bydd Marlene Wareham sy'n galw'r rhifau, yn gwneud y noson yn un hwylus. Mwy o fanylion yn rhifyn nesaf Llais y Llan.

Erbyn eich bod chi yn darllen hwn, mi fydd yr Ystafell Gyfarfod a'r ardal gyfleusterau wedi'i addurno gan Noel Morgans a'i Fab. Mi fydd Noel yn addurno cegin y neuadd mis Ionawr nesaf.

Clinig Gofal Traed

Y newyddion day w bod ein ciropodydd rheolaidd Gary Robinson yn masnachu fel 'Head to Toes' ac am ymweld â Llanpumsaint fel o'r blaen. Dylai unrhyw gwsmeriaid newydd gysylltu â Gary ar unrhyw noson rhwng 6-8 y.h.ar 07789344488, a hefyd yn gwsmeriaid presennol sydd eisiau siarad gydag ef. Bydd y clinig nesaf ar ddydd a 27 Awst, 8 Hydref, 19 Tachwedd, 14 Ionawr.

Gwasanaeth Swyddfa Bost - gyferbyn â Thafarn y Rheilffordd ar ddydd Mawrth 2.00 -4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 y.h.

Y Llyfrgell Symudol - pob 4 wythnos. Bydd yr ymweliad nesaf ar y 27ain o Awst, ffoniwch 224830 am ragor o fanylion.

Clwb Cinio yn Nhafarn y Rheilffordd

Mae'r pentref wedi croesawi nifer o bobl newydd ac rydym eisïau rhannu trefniadau'r clwb cinio misol. Mae Mike, Jayne a Nick, o Dafarn y Rheilffordd yn cynnal cyfarfod sydd fel arfer ar yr ail ddydd Mercher o'r mis - ceir dyddiadau pendant i'w gael yn y rhifyn diweddaraf o Lais y Llan. Mae'r pryd bwyd - sy'n dibynnu ar y fwydlen - £11.95 bob person, ac yn cynnwys pryd mawr penodedig (sy'n wahanol bob mis) a dewis o bwdin.

Mae raffl yn cael ei gynnal yn ystod y cyfarfod gyda'r elw yn cael ei rhoi yn y botel fawr o chwisgi wrth y bar. Ym mis Rhagfyr bydd yr elw yn mynd tuag at yr elusen benodol sy'n cael ei chefnogi gan Gymdeithas Codi Arian Nebo a Llanpumsaint. Yn 2014 codwyd £1000 tuag at y Gwasanaeth Ambiwlans Awyr. Mae'r person sy'n ennill y raffl yn gyfrifol am ddod â gwobr raffl y mis canlynol.

Mae hyd at 20 o'r pentref wedi'i dod i'r clwb am ginio ers iddo gychwyn yn 2008, ond mae digon o le i 30 o bobl! Os ydych chi eisïau gorffwys o goginio dewch i ymuno gyda ni ar y 12fed o Awst neu'r 9fed o Fedi. Rhowch wybod i'r tafarn ar 01267 253643 o flaen llaw i sicrhau bod lle i chi.

Rydym i gyd yn eistedd i fwyta am 1 o'r gloch ond mae'r mwyafrif ohonom yn cwrdd yn gynt i gael diod wrth y bar ac i gymdeithasu. Mae croeso cynnes i chi gyd.

Dau ddigwyddiad arall sy'n cael ei gynnal yn wythnosol;

Nos Fawrth - noson Pizza sy'n cynnwys 2 pizza a photel o win am £20 y pâr. Mae pizza i fynd, hefyd ar gael.

Nos Fercher - noson stêc sy'n cynnwys dwy stêc (rump), sglodion a salad gyda photel o win am £25 y pâr.

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Dal i ddisgwyl i ni am adroddiad y Cyngor Sir ar Ddiogelwch Trafnidiaeth addawyd erbyn canol Gorffennaf. Bwriad y Cyngor Cymuned oedd cael cyfle ei drafod yng nghyfarfod Medi'r 1af, cyn cynnal cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd er mwyn i'r cyhoedd leisio barn. Gallwch chi ddod i'r cyfarfod ar y 1af ond ni allwch siarad ar y noson honno.

Gellir cysylltu a'r Clerc, Phillip Jones ar 01267 253512 neu ar clerk@llanpumsaint.org.uk

Newyddion Eglwys y Plwyf Llanpumsaint

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd a chefnogodd ein bore coffi ar y 11eg o Orffennaf - bu'r bore yn llwyddiant mawr. Ar yr 2il o Hydref bydd ein Cwrdd Diolchgarwch am 6.30 y.h. ac fe fydd Swper Diolchgarwch yn dilyn yn y Neuadd Goffa, i ddechrau am 7.45 y.h. Croeso cynnes i bawb - mwy o fanylion i ddilyn.

Gwasanaethau Awst / Medi 2015

16 ^{eg} Awst	11 y.b.	Cwrdd gweddi
23 ^{ain} Awst	11 y.b.	Cymundeb teuluol
30 ^{ain} Awst	10.30 y.b.	Cymundeb (ar y cyd gydag Llanllawddog a San Celynin)
6 ^{ed} Medi	8.30 y.b.	Cymundeb
13 ^{eg} Medi	11 y.b.	Cymundeb dwy-ieithog
20 ^{ed} Medi	11 y.b.	Cwrdd gweddi
27 ^{ain} Medi	11 y.b.	Cymundeb teuluol

Gwelir hysbysfwrdd yr Eglwys ar gyfer unrhyw newidiadau i'r uchod.

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisoedd Medi, Hydref a Thachwedd 2015

Medi 6 2015	Parch Desmond Davies	Cymundeb Undebol am 10.30a.m.
Medi 27 2015	Mr Arwel Evans	Gwasanaeth am 2.00 p.m.
Hydref 4 2015	Parch Huw George	Cymundeb am 4.00p.m.
Hydref 18 2015	Cwrdd Diolchgarwch	Manylion i ddilyn
Tachwedd 1 2015	Parch Desmond Davies	Cymundeb am 3.00p.m.
Tachwed 29 2015	Parch Wyn Vittle	Gwasanaeth am 2.00p.m.

Os am rhagor o fanylion cysyllter a Danny Davies (Trysorydd) ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas (Ysgrifennydd) ar 01267 253686

Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Dydd Sul:	10.00am Ysgol Sul I Oedolion (Cymraeg)
	2.00pm Oedfa Bregethu (Cymraeg) Sul ofa'r mis - Oedfa Saesneg
Dydd Mawrth	1.00pm Dosbarth Beiblaidd Dwyieithog yn ein chwaer Eglwys Penuel
Dydd Iau	2.00pm Cwrdd Gweddi
Rhifau Cyswllt	Mrs Eleri Morris 01267 253895

Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru – Digwyddiadau

Dydd Sul, Medi y 13eg – Trip i ardal Trelech sy'n cynnwys y Meini Sefyll, Terret Tump, Ffynnon Sanctaidd y Santes Anne a'r Eglwys gyda chroes hynafol.

Dydd Sul, Medi y 27ain - yr awdur Peter Knight yn areithio ar: 'Stolen images - Pagan Symbols and Christianity'.

Mi fydd yn trafod sut mae symbolau paganaidd hynafol a chwedlau wedi'i mabwysiadu gan Gristnogaeth i drawsfeddiannu unrhyw gredoau cyn-Cristnogaeth. Gellid olrhain hanes rhan fwyaf o symbolau Cristnogol at wreiddiau henach, ac mae nifer o Eglwysi hefyd wedi'i lleoli mewn safleoedd hynafol sanctaidd.

Dydd Sul, Hydref y 25ain - yr awdures Megan Wingfield yn areithio ar: 'Tuning into Earth Energies and the Journey of the Lady Mary through Wales.'

Mae darogan yn grefft ddefnyddiol a diddorol gall bron unrhyw un eu dysgu. Dywed ei bod yn deillio o'r Aifft neu hyd yn oed ynghynt mewn hanes. Mae nifer o gwmnïau yn defnyddio doniau rhai daroganwyr profiadol i chwilio am ddŵr, mwynau, olew, ceblau trydan ayyb. Mae rhai yn gwirio am straen daearegol yn ei amgylchedd; cred bersonol yw hyn sydd heb gael ei brofi yn wyddonol hyd yn hyn.

Pam na ddewch chi ddydd Sul i brofi am eich hun? Dewch i ymuno â ni yn Neuadd Bronwydd am 1.45 yp. Mae mynediad yn £4 y person gan gynnwys paned o de a bisgedi. Does dim offer yn angenrheidiol, dewch a'ch hunan.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Sandy: 253547

Tŷ yn Esecs (A House for Essex)

Mae tri chan milltir yn swnio'n eithaf pell i ffwrdd ond buom ar hap yn ffodus i renti tridiau o wyliau mewn tŷ arbennig. Dyma ni wedi ein hamgylchynu gan gampweithiau celf Grayson Perry wnaeth ddylunio'r tŷ er cof am ferch ffuglonol o Esecs o'r enw Julie. Felly beth am y profiad? Hollol anhygoel! Cawsom ein gwirioni gan yr holl bensaerniaeth a'r campweithiau celf o'n hamgylch.

Yn ôl y son yswiriwyd y tŷ a'r holl gynnwys am bum miliwn o bunnoedd. Mae'r safle yn fanteisiol iawn uwchben bae Stour yng ngogledd y sir, ond bychan o ran maint, dwy ystafell wely. Edrychwn ymlaen at yr achlysur ac 'rwy'n siŵr y byddwn yn dychwelid gyda phentwr o luniau ac atgofion i'n hatgoffa o le arbennig iawn. Y tu allan gwelir teiliau Julie yn eu holl ogoniant gyda'r to euraidd; a thu fewn y tapestri, y ffiolau ceramig, y celfi unigryw a syndod arall tu hwnt bob cornel. Mae'r ystafell ymolchi yn rhywbeth arall eto!

Mae yna gystadleuaeth arall eto ar y we felly cerwch amdani, allech chi fod yn lwcus y tro nesa! Carolyn Smethurst

Taith Feicio Saithdeg Oed

Ysgrifennais o'r blaen am deithiau beicio wnes i o Lundain i Baris er mwyn cefnogi elusen ymchwil meddygol, a hefyd am fy mhenderfyniad i hepgor gwyliau moethus dathlu saithdeg er mwyn gwneud taith arall.

Cyn cychwyn arni rai wythnosau'n ôl, dyma fi'n reidio gyda ffrind o Lanelli i'r hen bont Hafren. Rai dyddiau wedyn mewn cwmni o ddau gant a hanner bant a ni o Lundain am 311 milltir arall am ddinas Paris. Oherwydd i'r tywydd fod yn wresog a gwyntog nid oedd yn daith hawdd, ond pan godwyd tri chan mil o bunnoedd at yr elusen teimlwn yn bendant i'r holl boen fod o werth. Bydd yr arian yn hybu ymchwil a darpariaeth i achub bywydau plant a babanod.

Hoffwn ddiolch o galon i'r holl gyfeillion yn y gymdogaeth am eu cymorth i mi a'm gwraig a'r tîm bychan (Celtic re-Cyclers) fu wrthi'n casglu cyfraniadau at y swm a godwyd. Diolch yn arbennig i Sandra am wau pabis gwlan wnaethom osod ar feddau'r Rhyfel yn Ffrainc. Gall defnyddwyr Facebook weld lluniau o'r fenter ar wefan Celtic re-Cyclers London2Paris 2015. Os ydych yn awyddus i gyfrannu gwnewch hynny i mi neu drwy'r wefan.

Gobeithio y gallaf ddal ati i feicio am flynyddoedd eto ond nid wyf yn rhagweld taith arall o Lundain i Baris. Er hynny hoffwn annog eraill i fentro arni oherwydd bydd y pleser o gefnogi eraill a'r mwynhad o lwyddo yn werth yr holl boen. Bob Conyard

Newyddion yr Heddlu

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydyn ni wedi cynnal nifer o wiriadau cyflymder yn y pentref a'r cyffiniau, gyda sawl gyrrwr yn cael ei riportio am gyflymder gormodol. Byddwn ni'n parhau i wneud hyn yn ystod y gwyliau haf er mwyn tynnu sylw at y risgiau pan mae'r plant i ffwrdd o'r ysgol.

Oherwydd yr haf, mae mwy o bobl allan yn cerdded o gwmpas y pentref gyda chŵn neu hebddyn nhw. Gan ein bod ni'n profi mwy o ddiwrnodau sy'n fwy cysylltiedig â'r gaeaf na'r haf ar hyn o bryd, hoffwn atgoffa cerddwyr bod gwisgo fest neu siaced lachar yn eich gwneud chi'n fwy amlwg i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd o sawl eiliad, gan roi mwy o amser i yrwyr ymateb i'ch presenoldeb a gweithredu'n briodol. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly ceisiwch wisgo festiau llachar pryd bynnag y bydd yn bosibl os gwelwch chi'n dda.

Rydyn ni wedi derbyn nifer o gwynion mewn perthynas â baw cŵn sy'n cael ei adael yn y pentref. Mae'r rhain yn cael eu pasio i adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor a fydd yn monitro'r broblem ac yn ymdrin â hi drwy gosbau penodedig a dirwyon.

Martin Dickenson 8046, Swyddog Cymorth Cymunedol, Heddlu Dyfed Powys
Gorsaf Yr Heddlu 101, Ex 25344 / 25343

martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk

Côr Llanpumsaint a'r Cylch

Ar hyn o bryd mae aelodau'r Côr yn cael seibiant haeddiannol ond bydd yr ymarferion yn ail ddechrau ar Medi 3ydd 2015 am 7.45 yr hwyr. Mae'r paratoadau mewn llaw ar gyfer y Cyngerdd Blynyddol a fydd yn cael ei gynnal yng Nghapel y Tabernacl, Caerfyrddin ar Hydref 31ain 2015. Eleni fe berfformir Saint Cecilia's Mass gan Gounod a'r artisitiad gwadd fydd Jessica Robinson, Soprano, Rhodri Prys Jones, Tenor ac Aled Edwards, Bariton. Gwyn Nicholas fydd yn arwain gyda Allan Fewster wrth yr organ.

Ym mis Gorffennaf diwethaf trosglwyddodd y Côr sic o £1200.00 i Ymchwil Cancr sef elw a wnaed o'r perfformiad o Olivet to Calvary yn Eglwys Crist Caerfyrddin ym mis Ebrill eleni. Diolch i bawb am eu cefnogaeth hael.

Hefyd ym mis Gorffennaf croesawodd y Côr ddysgwyr Cymraeg i Neuadd Llanpumsaint a oedd ar Gwrs Haf yng Ngholeg Llambled. Cafwyd llawer o hwyl yn canu, dawnsio gwerin a bwyta a mawr fu diolch yr ymwelwyr, rhyw 40 ohonynt am y croeso cynnes a'r hwyl. Diolch i aelodau'r Côr am y bwyd a hefyd i Dai a Aeres Davies a Geraint Rees am bob cymorth.

Os hoffai unrhyw un ymaelodi yn y Côr cysylltwch a Gwyn Nicholas 01267 253686 mor gynted a phosibl.

Clwbgwili 60+

Yn ddiweddar fe wnaeth Clwbgwili 60+ ymweld ag Amgueddfa Hanes San Ffagan. Buodd y tywydd yn garedig i ni unwaith eto a chawsom bryd bwyd bendigedig yn y Bridge Inn, Llangennech ar y ffordd adref. Trip Dirgel neu 'Mystery Trip' yw ein gwibdaith nesaf, sydd wedi'i drefnu gan Fysiau Cwm Taf ar ddydd Mercher y 18fed o Awst. Bydd y bws yn gadael neuadd Bronwydd am 11.30 y.b. ac yn dychwelyd tua 8.00 y.h. Os ydych yn dymuno dod ar y daith - y gost yw £10 yr aelod. Cewch fwy o fanylion wrth Val Giles ar 01267 281194.

Yng nghyfarfod mis Mehefin cawsom ein diddanu gan Mr Gareth Richards. Cawsom brynhawn hwylus yn gwyllo Gareth yn paratoi'r picnic perffaith. Cafodd yr holl fwyd a baratowyd gan Gareth ei roi i'r raffl fel rhodd garedig iawn, yn ychwanegol i'r tair gwobr arferol.

Rydym nawr yn edrych ymlaen at gyfarfod Mr Bruce Hawkins a fydd yn siarad am 'Wicked Women' ar y 27ain o Orffennaf. Fe fydd Mrs Lilian Charles gyda ni ar y 24ain o Awst yn siarad am "Mary, Humpty and the Black Sheep" - rydym yn disgwyl cyfarfodydd diddorol iawn.

Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal ar ddydd Llun y 28ain o Fedi - bydd yr aelodaeth flynyddol o £5 yn deilwng. Ar ddydd Llun y 23ain o Dachwedd, bydd ein haelodau yn gadel Bronwydd ac yn mynd ar drip Twrci a Thinsel i'r Ynys Wyth. Mae dal gennym lefydd ar ôl os ydych am ymuno gyda ni. Mwy o fanylion wrth Mr Glyn Evans, Elderado, Bronwydd - 01267 236280

O ganlyniad i'r trip Twrci a thinsel, mae'r cyfarfod misol yn cael ei gynnal ar y nos Lun y 16eg o Dachwedd.

Tafarn Nantcelynnen bydd yn cynnal ein Cinio Nadolig eleni, ar ddydd Mercher y 16eg o Ragfyr am 12.30 - 1 y.p. Ysgrifennydd y Clwb:

Mrs Val Giles 23 Maesydderwen, Cwmdwyfran, Bronwydd, Caerfyrddin SA33 6JE

Dai Twm – Ffrind pawb

Pan gladdwyd Defi Tom Howells Ffynnonfelen ym mynwent eglwys Llanpumsaint dyna ffarwelio a'r olaf o wir gymeriadau gwreiddiol yr ugeinfed ganrif yn ein hardal. Bu Llanpumsaint yn fagwrfa i nifer o rai gwahanol, hoffus a doniol, gan ddwyn i gof Handel Gifachfach, Gwilym Gilfachmaen, Tomos Bowen Cwmeinion a'r triawd direidus, Gwyn Deri, Emrys Pwmps a Defi John llath. Ond 'r oedd Dai Twm yn hollol unigryw o ran cymeriad a ffordd o fyw.

Ganed ef ar fferm Penffynnon ger Llandysul ond symudodd y teulu'n weddol fuan i Ffynnonfelen, ardal Nebo, a dyna le bu am weddill ei fywyd. Aeth i Ysgol Llanpumsaint i ddisgleirio yn ei wersi ac yn arbennig mewn Mathemateg. Er i nifer lwyddo yn yr arholiad 11+ chafodd Dai mo'r cyfle, er ei fod yn seren oherwydd yr alwad adre i ffarmo. Bu farw ei frawd hynaf Lyn ac felly yn ôl traddodiad cefn gwlad rhaid i'r bachgen nesaf gamu i'r bwlch. Er hynny derbyniodd addysg bellach yn y Stag & Ffesant dan y brifathrawes arbennig honno Madge Jenkins.

Ar hyd ei oes “..*bu'n ffrind i bawb a phawb yn ffrind iddo ef!*”. Gyda chyfeillion ym mhobman ta le ethe fe ddeuai'r cyfarchion siriol o bellter bob tro, “*Shwd nyt ti Dai Twm?*”. Ers cenedlaethau bu'r dafarn yn ganolfan cymdeithasol pwysig, nid yn unig i ymlacio ond i gyfarfod a thrafod hynt a helynt y byd gyda gwahanol bobl. 'Nol yn y chwedegau penderfynodd Dai a'i gymydog Arwyn Lleine fynd i sêl ffarm yn Llannewydd. Ar y ffordd dyma alw am betrol ger hen dafarn y Bronwydd, ethon nhw'm pellach ac aeth y sêl ymlaen hebddynt. Aeth yn rhestr hir, o'r White Horse (diflanedig erbyn hyn), y Railwe yma yn Llanpumsaint, drwyddo i'r Drovers, Rose & Crown, Blue Boar ac yr olaf bwysig, yr Eagle yn Llanfihangel-ar-arth. Er nad oedd yn cwrdd â diferyn gatre ffindiodd Dai hi'n anodd gadael y canolfannau cymdeithasol cyfeillgar hyn, ac felly aeth cyrraedd 'nol gatre yn drafferthus yn aml iawn. Gyda'r wen chwilfrydig gellweirus medrau gynnal sgwrs ddiddorol gydag unrhyw un, a'i chynnal am oriau gyda chymorth y gwydr cyfleus.

Yr oedd y diddordeb mawr mewn cymysgu a phobol wedi ei feithrin yn gynnar iawn yn ardal Nebo. Sgwâr Bethoron oedd y man cyfarfod i blant a phobl ifanc yr ardal, a dyna le bydden nhw'n trafod a chloncan a mwynhau direidi'r nosweithiau rhydd. Dyma griw hollol heddychlon yn mwyhau'r cwmni a'r hwyl syml a byth yn cweryla na chwmpo mas. Mi wnaeth y gymdeithas fach honno rwbio bant ar eu datblygiad gan gynnwys Dai. Problem fawr Dai Twm oedd cyrraedd gatre. Yn nyddiau'r hen fan, un nos Sadwrn hwyr fe foilodd i'r claw' rhwng Lleine a Ffynnonfeln .. cadno'n croesi'n ddi-rybydd, yn ôl y fersiwn swyddogol. Dath bois Nebo o hyd iddi ond dim son am y drifwr, ac oherwydd bod y teiars yn dene iawn aethpwyd a'r fan a 'i chwato yn Llechwedd yng ngarej Elwyn. Erbyn canol yr wythnos ymddangosodd Dai i wneud ymholiadau ac yna ei chasglu erbyn Dydd Iau.

Mae'r stori yn dyst i shwt o'dd bawb am i helpi a'i amddiffyn e'. Rhyw ffordd neu'i gilydd o'dd e'n llwyddo i gal lifft bob tro yn y diwedd. O'dd e'n nabod cymint a

rheini'n ffrindie i gyd. Sawl car neu dacsu fu'n ymbalfali shwt i droi nôl ar glos diert h Ffynnonfelen yn nhywyllwch orie man y bore? Un tro cafodd reid gatre yn Jaguar spicanspan Iori Sheffield House. ***"Le fi'n troi rownd?"***

"Swinga rownd rwele", medde Dai. Clatsh! .. Yn streit miwn i'r whilber ar ganol clos! Yn hoff o deithio' roedd ganddo restr o dripie blynyddol...rhaid mynd i Smithfield bob blwyddyn.... ethe Smithfield byth 'mhlan hebdo fe! Welech chi fe da John Glannant lan ar ddydd Sadwrn Barlys yn Aberteifi a wastad yn y Sioe yn Llanellwedd, yno'n studio y peirannau mawr diweddaraf, na fyddai fyth yn meddwl eu prynu. Wrth i'r gymdeithas Gymreig leol raddol wanhau a dirywio gwnaeth Dai ddarganfod mangre gadarn arall, sef yn yr Eagle yn Llanfihangel-ar-arth. Yno 'roedd awyrgylch draddodiadol yn dal i ffynnu, lle byddai'n rhannu hwyl y rasys ceffylau a gwneud yn siŵr na fyddai fyth yn colli cinio dydd Sul blasus Morfudd.

O holl gymeriadau amrywiol yr ugeinfed ganrif 'doedd neb yn fwy gwreiddiol, doniol na hoffus na Dai Twm Ffynnonfelen. Mae gan bawb oedd yn ei adnabod eu stôr ei hunain o storie difyr amdano, ac maent i gyd yn gorffen gyda gwen. Yn bendant ni welir ei debyg eto!

Arwyn 2015

Diogelu Cartrefi Rhag Tân

A oes gennych chi larwm mwg sy'n gweithio? A ydych chi'n poeni am berygl tân yn eich cartref?

Gall diffoddwyr tân o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ymweld ag eiddo domestig er mwyn darparu cyngor diogelu rhag tân yn y cartref, a byddant yn darparu ac yn gosod larwm mwg yn rhad ac am ddim.

Mae'r archwiliadau hyn yn sylfaen i'r rôl gadarnhaol y mae'r Gwasanaeth yn ei mabwysiadu er mwyn lleihau'r marwolaethau a'r anafiadau sy'n cael eu hachosi gan danau damweiniol.

Os hoffech chi gael rhagor o gyngor neu os yw'ch asesiadau wedi tynnu sylw at rai risgiau tân penodol yn eich eiddo, ffoniwch 08001691234 er mwyn siarad am ymweliad diogelwch yn y cartref gan swyddog o'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Village Voice August 2015

Copy Date for next Edition 25th September 2015

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Tuesday Pizza Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Monday and Thursday from 3 September 7.30 – 9.30 Bowls at Memorial Hall

August 12 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book

August 18 Wednesday 11.30 Clwbgwili 60+ Mystery Trip Phone Val Giles 281194 to book

August 20 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

August 24 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

August 27 Thursday 1.00 Foot Care Clinic Memorial Hall

August 27 Thursday 8.00 AGM Bowls Club Memorial Hall

August 29 Saturday 11.00 Cynwyl Elfed YFC Show

August 30 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

September 1 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

September 5 Saturday 2.00 Walk Black Mountain

September 9 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book

September 12 – 13 Heritage Weekend Dynevor – free admission

September 13 Sunday Dowsers Field Trip Trelech Newport Gwent

September 17 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

September 26 Saturday 10 – 12noon Macmillan Coffee Morning Memorial Hall

September 27 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

September 27 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

September 28 Monday 2.00 AGM Clwbgwili 60+ Bronwydd Hall

October 3 Saturday 3.00 Walk Kidwelly Quay

October 6 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

October 8 Thursday 1.00 Foot Care Clinic Memorial Hall

October 14 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book

October 17 Saturday 10.00 Coffee Morning Towy Knitting Club Bronwydd Hall
October 22 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn
October 24 Saturday 8.00 Abba Tribute Evening Memorial Hall
October 25 Sunday 1.45 West Wales Dowers Bronwydd Hall
October 25 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd
November 3 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall
November 12 Thursday Welfare Charity Meal Railway Inn – more details next issue
November 16 Monday 2.00 Clwbgwili 60+ Bronwydd Hall
November 19 Thursday 1.00 Foot Care Clinic Memorial Hall
December 4 Friday Christmas Bingo Memorial Hall – details in next issue
December 16 Monday 12.30 Clwbgwili 60+ Christmas Meal Hollybrook Inn Bronwydd
December 24 Thursday Santa Parade – more details in next issue
January 14 Thursday 1.00 Foot Care Clinic Memorial Hall

*Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall
To book the hall, phone Arwel Nicholas on 01267 281365*

Notice from Siop Penbontbren Stores

Last month Roz & Steve announced that the shop was due to close at the end of July. I am very pleased to inform you all that it will now stay open and will be run by myself Darlene Davies and my partner James Stickland. As I'm sure most of you already know, I also work in the Salon next door, so there will be a change in shop opening hours:-

Mon - Thurs	8am - 3pm
Fri	8am - 8pm (chip night)
Sat	8am - 3pm
Sun	9am - 1pm

We look forward to your continued support. Thank you.
Darlene and James

Lidl Carpark

Many of us have enjoyed the free parking in Lidl Carpark – but beware, the carpark is now camera controlled, and you must give your car registration number to the cashier to avoid a parking fee of £90. The camera works 24hrs per day, so if you park there when the shop is closed, you will still be fined. You have been warned!

Post Office Mobile Outreach Service – Layby opposite the Railway Inn, Tuesday 2.00 – 4.00, Friday 1.00 – 3.00pm

Mobile Library – Every 4 weeks, next visit 27th August – for details phone 224830

Clwb Cerdded Llanpumsaint Walking Club

Seven members met at Llandeilo car park on July 11th and walked down to the river, stopping along the way to take in the old Abbey walls and the well. Most of us sampled the lovely clear, sweet water. The well was very pretty and had been decorated with small figurines and fresh flowers.

Apparently, people would drink the well water when they were feeling under the weather.

We then walked along the river path, through Castle Woods, again stopping off to visit the ruins of Llandyfeisant church, where some of the Barons of Dynevor are buried along with their families and servants. A very pretty area, with wild flowers and small spring.

The walk then continued up to Dynevor Church, for lunch and then back up Newton House drive, to the main road and down to Llandeilo for a lovely Heavenly icecream. The cornet is always crammed full, such good value for just £2.50.

NB. Please note that if you walk through the grounds of Newton House you will now be asked by the National Trust for £6.50 per person for the privilege, even if you don't visit the house! Quite wrong given that the walk is mentioned in many guide books, walks books and even on a notice board in Llandeilo car park!

Our next walk on 5th September will be an exploration of the history of the Black Mountain Lime Industry. It is a fascinating and strikingly beautiful landscape of limestone quarries and lime kilns within the Brecon Beacons National Park and the Fforest Fawr Geopark.

